

**Cofnodion Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa, a gynhaliwyd ddydd Iau 13 Rhagfyr 2012 yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian**

**Yn Bresennol:**

Y Cyng A M Jones	Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid y Safle
Mr Gordon Malcolm	Dirprwy Gyfarwyddwr y Safle/Rheolwr Safle Wylfa
Mr Fred Brookes	Rheolwr Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd (AIDacA), Safle Wylfa
Mr Mark Chevis	Swyddog Cyfathrebu, Wylfa/Trawsfynydd
Mr Tom Conway	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Dr Les Davies	Arolygiaeth Safleoedd – Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
Mr Gav Elias	Llywodraeth Cymru
Mr Alan Hall	Swyddog Cynllunio Argyfwng, Dŵr Cymru
Mr Peter Harrop	Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Y Cyng William T Hughes	Ward Llanbadrig - Cyngor Sir Ynys Môn
Ms Michelle Humphreys	Magnox Wylfa
Mr Derek Jones	Magnox – Gweithdrefnau Argyfwng
Y Cyng Jac Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Mr Ieuan Wyn Jones	Aelod Cynulliad dros Ynys Môn
Mrs Jean Jones	Ysgol Syr Thomas Jones
Mrs Claire MacLean	Tîm ONR EIA
Mr M Mytich	Hyder
Mr Mel O'Hara	Aelod o Is-Grŵp Gwastraff GRhS
Y Cyng J V Owen	Ward Parc a Mynydd – Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng Glyn Roberts	Cyngor Cymuned Mechell
Y Cyng Gareth Winston Roberts OBE	Is-Gadeirydd y GRhS (Cyngor Gwledig Amlwch a Chyngor Sir Ynys Môn)
Y Cyng W E Rowley	Cyngor Cymuned Cylch y Garn
Mr Gareth Roberts	Swyddfa Ieuan Wyn Jones AC
Mr Mark Thornton	Rheolwr Gwastraff, Safle Wylfa
Mrs Judy Turner	Magnox Wylfa
Mrs Karin White	Magnox Wylfa

**Ymddiheuriadau**

PC 1574 Louise Evans	Heddlu Gogledd Cymru
Mr Richard Foxhall	Horizon Nuclear Power
Y Cyng K P Hughes	Ward Llanfaethlu - Cyngor Sir Ynys Môn
Mr Jonathan Jenkin	Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Y Cyng Elfed Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Mrs Gwyneth Jones	Merched y Wawr
Dr John Idris Jones	Ynys Ynni a Safle Magnox Wylfa
Mr J C Jones	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Miss Linda Jones	Ynys Ynni
Mr Richard Parry Jones	Prif Weithredwr Dros Dro - Cyngor Sir Ynys Môn
Mr Stuart Law	Cyfarwyddwr Safle, Wylfa
Mrs Jan Milburn	Rheolwr Datgomisiynu, Safle Wylfa

Mr Nigel Monckton	Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol Magnox
Mr Roger Nourish	Tîm ONR EIA
Mr Albert Owen	Aelod Seneddol Ynys Môn
Mr Tim Poole	Ymgyrch Cymru Wledig
Mrs Saranne Postans	Swyddog Cyfathrebu, Magnox North
Mr Steve Roberts	Aelod o'r Cyhoedd
Mr Trevor Roberts	Cynrychiolydd Cyd-Gyngor Safle Wylfa
Mr Alan Smith	Horizon Nuclear Power
Mr Dylan Williams	Uned Datblygu Economaidd, Cyngor Sir Ynys Môn
Mrs Heidi V Williams	Undeb Amaethwyr Cymru – Swyddog Gweithredol y Sir
Mrs Melanie Wymer	Bodorgan Trust Company Ltd
Mr Paul Kennedy	Tîm Ymbelydredd, Asiantaeth Safonau Bwyd

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Eglurodd nad oedd modd i Stuart Law fod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw ond fod Gordon Malcolm, Dirprwy Reolwr Safle, yn bresennol ar ei ran. Estynnwyd croeso arbennig i Ieuan Wyn Jones AC, Claire MacLean a Dr Peter Howden o Dîm ONR EIA, Michael Mytych o Hyder a Gav Elias o Gangen Ymbelydredd ac Atal Llygredd Llywodraeth Cymru.

## 2. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2012 a Materion yn Codi

Nid oedd unrhyw ddiwygiadau i'r cofnodion blaenorol. Cynigiwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir gan y Cyng Jac Jones ac eiliwyd hwy gan y Cyng A M Jones fel cofnod cywir. Nid oedd dim materion yn codi.

## 3. Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle

- i. Mae Wylfa'n hynod falch o fod wedi ennill pedwerydd Cleddyf Anrhydedd gan Gyngor Diogelwch Prydain a hefyd Glôb Anrhydedd am ei berfformiad amgylcheddol.
- ii. Cofnodwyd digwyddiad trwch-blewyn pan syrthiodd darn o wydr wedi'i atgyfnerthu o un o'r paneli gwydr. Cynhaliwyd arolwg gan Beirianeg Sifil a daeth i'r amlwg bod craciau mewn mwy o baneli gwydr sydd bellach wedi cael eu disodli.
- iii. Ar 30 Medi gwnaed penderfyniad ceidwadol i gau Adweithydd Un a chynnal archwiliadau gyda camera oherwydd trafferthion tanwydd. Rhoddir cyflwyniad yn ddiweddarach yn y cyfarfod i ddisgrifio beth ddigwyddodd a'r camau a gymerwyd. Nid oedd mwy o berygl i'r amgylchedd, y gweithlu na'r cyhoedd.
- iv. Rhoddwyd cychwyn ar y paratodau ar gyfer IRX ym mis Mai a bellach mae tanwydd yn cael ei drosglwyddo'n rheolaidd o adweithydd dau i adweithydd un drwy gell dau.
- v. Mae trydan yn cael ei gynhyrchu yn gynt na'r disgwyl (1.974 TWhrs yn erbyn targed o 1.380 TWhrs). Mae Wylfa wedi anfon tri llafn tyrbîn gwasgedd isel yn pwysu can tunnelli i gyd, i gael eu hailgylchu gan nad oedd eu hangen mwyach.
- vi. Ym mis Awst 2008, cyflwynodd Magnox ddatganiad amgylcheddol i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) i gefnogi cais ar gyfer datgomisiynu safle Wylfa. Ym Mawrth 2009, rhoddodd yr HSE ganiatâd ar gyfer cyfnod o bum mlynedd i ddatgomisiynu. Oherwydd y cyfnod cynhyrchu estynedig, bydd y caniatâd wedi dod i ben cyn diwedd y cynhyrchu (Medi 2014), felly

mae angen ail-ymgeisio cyn i'r caniatâd presennol ddod i ben. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) cytunwyd y gall Wylfa gyflwyno Datganiad Amgylcheddol newydd ar ffurf Adolygiad Bwrdd Gwaith o Ddatganiad 2008. Cyflwynir yr adolygiad hwn i'r ONR erbyn Mawrth 2013 i alluogi derbyn caniatâd erbyn Mawrth 2014.

vii. Ymwelodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, David Jones â Wylfa ym mis Medi – un o'i ymweliadau swyddogol cyntaf ers iddo ymgymryd â'r swydd yn y Cabinet. Hefyd, yr oedd Neil Baldwin, Rheolwr Gyfarwyddwr Magnox, wedi ymweld â Wylfa, a rhoddodd y ddau sylwadau cadarnhaol iawn am yr orsaf.

vii. Nodwyd yn arbennig lwyddiant prentisiaid i gyflawni gwobrau cenedlaethol, yn benodol Bryn Arfon Jones a Nick Edwards.

viii. Mae'r Prosiect Llunio'r Dyfodol bellach yn mynd rhagddo'n dda gyda dosbarthiadau meistri wedi eu trefnu i gynig arweiniad i unigolion.

ix. Wedi derbyn yr adroddiad, estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau eto i'r orsaf ar dderbyn gwobrau'r Cleddyf Anrhydedd a'r Glôb Anrhydedd.

#### **4. Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle**

i. Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig. Y mae wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda John Idris Jones, Rheolwr Materion Economaidd-Gymdeithasol Magnox, sydd hefyd wedi'i secondio'n rhan-amser fel Cyfarwyddwr y Rhaglen Ynys Ynni. Roedd hefyd wedi cyfarfod Aled Roberts (Aelod Cynulliad dros Ogledd Cymru) a Neil Baldwin (Rheolwr Gyfarwyddwr Magnox) ac wedi bod yn bresennol mewn cyfarfod diweddar a briffio gyda Gordon Malcolm ar y safle.

ii. Bu'r Cadeirydd yn bresennol yng Nghyfarfod y Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol ym Manceinion ym mis Hydref (nid ym mis Medi fel y nodwyd yn yr adroddiad).

iii. Anfonwyd gwahoddiad at Mr John Clarke, Prif Weithredwr yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) i ymweld â Wylfa yn y dyfodol agos.

iv. Nid oedd unrhyw gwestiynau ar yr adroddiad.

#### **5. Cynnig i ddiwygio Cylich Gorchwyl y Grŵp Rhanddeiliaid Safle**

i. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau fynd â'r ddogfen i ffwrdd gyda hwy i feddwl am y goblygiadau gan y bydd rhai wardiau etholiadol yn diflannu ar 1 Mai 2013. Rhoddir y mater hwn ar yr agenda ar gyfer trafodaeth yng nghyfarfod mis Mawrth.

#### **6. Diweddariad gan Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear**

i. Cychwynnodd P Harrup ei adroddiad drwy longyfarch y safle ar ei lwyddiant arbennig yn ennill y Cleddyf a'r Glôb Anrhydedd.

ii. Cynhaliodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus sesiwn tystiolaeth yn Cumbria yn dilyn adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar reoli risg yn Sellafield. Rhoddodd Prif Weithredwr yr NDA, John Clarke, dystiolaeth gerbron y pwyllgor.

iii. Gyda chefnogaeth cyfraniad o £1 miliwn gan yr NDA, llwyddodd Arfordir Ynni Prydain i sicrhau £5.6 miliwn o'r Gronfa Twf Rhanbarthol ar gyfer y Cynllun "Buddsoddi mewn Busnes". Gwahoddwyd sylwadau ar yr opsiynau o fewn Papur Strategaeth ar gyfer Storfa Gwastraff Lefel Ganolraddol yn Ne a Chanolbarth yr Alban. Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau oedd 5 Hydref.

iv. Bu'r NDA yn derbyn gwybodaeth ynghylch y materion o ran parhau i gynhyrchu yn Wylfa.

v. Mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd wedi cyhoeddi'r Ail Adroddiad Blynyddol ar ei rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwaredu daearegol yn y DU.

vi. Mae'r gystadleuaeth i benodi Sefydliad Rhiant Gorff newydd ar y deuddeg safle Magnox ac RSRL bellach yn mynd rhagddi'n ffurfiol. Cynhaliwyd cynhadledd i gynigwyr ym Manceinion ar y gystadleuaeth sydd werth £4-5 biliwn dros y 7 mlynedd nesaf – sy'n ei gwneud yn un o'r ymarferion caffael cyhoeddus mwyaf ar hyn o bryd. Mae pum sefydliad byd-eang wedi llwyddo yn y cam cyn-cymhwyso.

vii. Gofynnodd y Cadeirydd a allai cymunedau lleol ymgysylltu â'r broses pan ddaw cynigwyr y gystadleuaeth ar y safle i drafod materion economaidd-gymdeithasol. Teimlai ef ei bod yn bwysig i'r cynigwyr gyfarfod y gymuned leol fel y gallant gael syniad am ddymuniadau a dyheadau'r gymuned ar faterion economaidd-gymdeithasol. Cytunodd yr NDA i ymateb i'r cais hwn.

## **7. Diweddariad gan Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear**

i. Cyflwynodd Dr Les Davies adroddiad ONR. Crybwyllodd fod ychydig o ymchwiliadau cychwynnol wedi'u cynnal ar y safle a'u bod yn fodlon nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

ii. Ers yr adroddiad, cwblhawyd ymarfer arddangos a oedd yn profi'r ymateb i ddigwyddiad Diogelwch a Gwarchodaeth. Roedd nifer o feysydd bychain i'w gwella a rhai arferion a oedd yn gwrthdaro â'i gilydd, yr oedd angen rhoi sylw iddynt.

iii. Mae'r ONR yn cyhoeddi eu hadroddiadau a'u crynodebau gweithredol ar y we a gwahoddwyd Rhanddeiliaid i edrych arnynt.

iv. Mae'r Mesur Ynni wrthi'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd a'r ddau brif fater yw: a) hwyluso adeiladu o'r newydd a b) cynnwys deddfwriaeth i ONR ddod yn sefydliad statudol annibynnol.

v. Hysbysodd y Cadeirydd y pwyllgor bod Dr Des Davies yn gadael ei swydd bresennol i ymgymryd â swydd debyg ar draws holl fflyd Magnox. Tom Davenport fydd yr arolygwr newydd a fydd yn ymgymryd â'r gwaith ym mis Chwefror. Diolchodd y Cadeirydd i Dr Davies yn bersonol am ei gefnogaeth i'r Grŵp yn ystod cyfnod anodd ac ansicr.

## **7. Diweddariad ar Is-Grŵp gwastraff GRhS a'i Aelodaeth**

Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd o'r Is-Grŵp Gwastraff yn ystod y cyfnod gan na chodwyd unrhyw faterion.

ii. Stac y llosgydd Gwastraff Lefel Isel – Canfuwyd lefel uchel o rwd yn Dungeness ac o ganlyniad archwiliwyd yr offer yn Wylfa hefyd. Yn dilyn hynny, gosodwyd stac newydd yn ei le ym mis Mawrth a'i ail-gomisiynu ar 28 Tachwedd. Yn anffodus, canfuwyd nam ar y cywasgydd aer ac felly fe'i caewyd i alluogi gwneud gwaith cynnal a chadw a phrofi allyriannau'n flynyddol. Bydd Wylfa'n dechrau llosgi gwastraff yn y Flwyddyn Newydd a disgwylir y bydd y gwaith sydd wedi cronni wedi'i glirio erbyn mis Mawrth.

iii. Cell Storfa Sych 4, malurion cyrydiad – mae gwaith yn cael ei wneud i bennu sut i symud y malurion. Roedd adroddiad i fod i gael ei gyflwyno ym mis Tachwedd, ond bydd bellach yn barod erbyn diwedd Rhagfyr. Cynhelir gweithdy ar y pwnc hwn yn y Flwyddyn Newydd.

iv. Cynllun rheoli gwastraff lefel isel – Y bwriad yw lleihau'r gwastraff a anfonir i'r storfa drwy losgi ac ailgylchu. Mae Wylfa'n hyderus y bydd yn cwrdd â'r targedau o ran llosgi ac ailgylchu.

v. Mae'r system cod bar olrhain gwastraff a arddangoswyd yng nghyfarfod diwethaf y GRhS bellach yn y cyfnod gweithio cysgodol – bydd y system newydd yn cymryd drosodd yn y Flwyddyn Newydd.

vi. Mae'r Strategaeth Ansawdd Tir yn edrych ar dir Wylfa a allai fod wedi ei halogi gan olew/ cemegau / ymbelydredd. Mae'r ddogfen hon yn cael ei diwygio fel y gellir cynhyrchu dogfen gyson yn disgrifio ansawdd y tir ar bob safle. Bydd y fersiwn terfynol ar gael yn y Flwyddyn Newydd.

vii. Mae angen aelodau ychwanegol ar gyfer yr Is-Grŵp gwastraff – cynigiodd Jean Jones a'r Cynghorydd J V Owen eu henwau. Gofynnwyd i aelodau'r GRhS anfon unrhyw enwau eraill i'r ysgrifenyddiaeth.

## **8. Diweddariad ar y Cynllun Economaidd-Gymdeithasol**

i. Cyflwynwyd y diweddariad a'r adroddiad hwn gan Michelle Humphreys. Dyfarnwyd cyllid i bum mudiad yn ystod y chwarter diwethaf. Cyfeillion Grŵp Gymnasteg Ynys Môn (£400), Merched y Wawr Ynys Môn (£500), Cylch Meithrin Penysarn (£1,000), Clwb Pêl-droed Llanerchymedd (£1,000) a Chlwb Pêl-droed Hotspurs Caergybi (£500).

ii. Ers cynhyrchu'r adroddiad papur, mae chwe cais yn mynd drwy'r broses ar hyn o bryd ac rydym yn cyfarfod â mudiadau eraill i drafod ceisiadau i'r dyfodol.

iii. Ar 3 Rhagfyr, yr oedd cyfanswm o 778 o ymwelwyr wedi ymweld â Groto Siôn Corn. Rhagwelir y bydd dros 2,200 o ymwelwyr wedi galw yn y Groto erbyn 21 Rhagfyr. Cynhaliwyd Cinio Nadolig y Staff sydd wedi Ymddeol ar 7 Rhagfyr.

iv. Mae'r broses ymgeisio am leoliadau dros yr haf bellach yn agored a gofynnwyd i'r aelodau ledaenu gwybodaeth am y cynllun hwn i roi gwybod i'w cydnabod.

## **9. Adroddiad y Pwyllgor Ymgynghori Cynllunio Argyfwng**

i. Ceir presenoldeb da yng nghyfarfodydd y pwyllgor hwn ac maent yn gwneud llawer o waith da o ran cynllunio ymarferion. Mae'r gyfres gyflawn o ymarferion diogelwch a niwclear mewnol wedi cael eu cyfuno (yn hytrach na chael dwy weithdrefn wahanol) ac o ganlyniad nodwyd rhai gwrthdrawiadau, a rhoddir sylw iddynt. Cynhwyswyd yr holl ddysgu yn yr arddangosfa i'r Rheoleiddiwr a rhoddir gwelliannau ar waith.

ii. Mae'r ONR wedi cynnal sawl archwiliad ac arolygiad a nodwyd bod angen diweddarau rhai cyfeirnodau dogfennau yn y Llawlyfr Argyfwng.

iii. Roedd ychydig o asid yn gollwng wedi rhoi'r Ganolfan Rheoli Digwyddiadau ar waith – sefydlwyd gweithdrefnau ac ymdriniwyd yn brydlon â'r mater.

iv. Galwyd Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i'r safle gan fod aelod o staff yn cwyno gyda phoenau yn ei frest - nid oedd â wnelo'r cyflwr hwn â gwaith.

v. Cynhelir Ymarfer Diogelwch RAD mawr ym Mawrth 2013. Bydd y gwaith cynllunio ar gyfer yr ymarfer hwn yn cymryd hyd at bum mis. Rhaid i ddiwydiannau sy'n defnyddio deunydd ymbelydrol gydymffurfio â'r gofynion hyn ar gyfer cludo deunyddiau. Mae angen gwasanaeth

ymateb prydlon yn ei le ar gyfer unrhyw ddigwyddiad o'r fath wrth gludo ar y rheilffyrdd neu ar y ffordd. Bydd yr ymarfer hwn yn "ddigwyddiad ar y ffordd" (gerllaw'r Cae Chwaraeon) a bydd yr holl weithgareddau o fewn ffiniau safle Wylfa. Bydd y tri gwasanaeth argyfwng yn cymryd rhan yn yr ymarferiad – yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans.

## **10. Cyflwyniad ar Gau Adweithydd Un a'i Ailgychwyn**

- i. Dywedodd Gordon Malcolm bod staff wedi cael trafferthion i ail-lenwi adweithydd un â thanwydd ar 31 Medi a bod y rheolwyr wedi penderfynu cau'r adweithydd fel y gallent edrych y tu mewn a phenderfynu beth oedd yn achosi'r broblem. Canfuwyd nad oedd y peiriant tanwydd yn gallu codi rhoden danwydd gan ddefnyddio'r offer gfael. Gosodwyd camera i mewn yn yr adweithydd i archwilio'r broblem. Canfuwyd y rhwystr a'i dynnu o'r sianel danwydd. Cafodd yr adweithydd ei ail-gychwyn ddechrau Tachwedd.
- ii. Canfu'r staff fod malurion metelig yn bresennol yn y sianel. Cynhyrchwyd arf magnetig arbennig yn lleol ym Miwmares i glirio'r rhwystr. Unwaith yr oedd popeth wedi cael ei archwilio, craffwyd ar gyflwyniad diogelwch gan ONR ac nid oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r adweithydd ail-gychwyn gweithio.
- iii. Gofynnodd Tom Conway pa gyfran o'r llif nwy a rwystrwyd a beth oedd y newid o ran tymheredd y rhoden danwydd. Eglurwyd bod yr asesiad malurion adweithydd yn darparu am hyd at 25 o'r eitemau hyn ac mai dim ond un a ganfuwyd gennym. Roedd y newid o ran tymheredd y tanwydd yn ddibwys ac ni chafodd yr eitem ei godi gan lif nwy'r sianel.

## **11. Asesu Effaith Amgylcheddol ar gyfer Datgomisiynu (EIADR)**

- i. Rhoddwyd y diweddariad a chyflwyniad gan Judy Turner. Eglurodd hi bod yn rhaid i Wylfa ail-ymgeisio am ganiatâd i ddatgomisiynu. Cwblhawyd Datganiad Amgylcheddol bum mlynedd yn ôl yn ystod y cais am ganiatâd. Bydd y caniatâd cyfredol yn dod i ben ym Mawrth 2014 oherwydd cynhyrchu estynedig yn Wylfa, ni fydd yr unig safle i orfod mynd drwy'r broses hon yr eilwaith.
- ii. Mae'r broses ar gyfer cael caniatâd ym cymryd blwyddyn gyfan felly rhaid i ni gyflwyno'n cais i'r ONR erbyn Mawrth 2013. Yn dilyn trafodaethau gyda'r ONR, rydym wedi cytuno ar y dull a fwriedir ar gyfer ail-gyflwyno. Defnyddir y Datganiad Amgylcheddol cyfredol fel sylfaen ac ni fydd y cyflwyniad newydd yn ymdrin â dim ond unrhyw newidiadau. Caiff y ddogfen hon wedi'i diweddarau ei chylchredeg i aelodau drwy restr bostio'r GRhS am sylwadau. Defnyddir profion i edrych beth sydd wedi newid ers y Datganiad Amgylcheddol diwethaf, gan edrych ar:
  - a) unrhyw newidiadau i'r amgylchedd,
  - b) a yw'r cynlluniau lliniaru'n parhau'n ddilys,
  - c) unrhyw fesurau lliniaru newydd sydd eu hangen,
  - d) newidiadau o ran methodoleg asesu,
  - e) effeithiau cronol presennol / yn y dyfodol gan ddatblygiadau cyfagos, a
  - f) newidiadau i'r prosiect datgomisiynu cyffredinol.

Mae Ymgynghorwyr Hyder yn ffurfio barn annibynnol ar yr hyn y mae angen ymdrin ag ef a byddant yn cynhyrchu adroddiad yn fuan.

- iii. Mae'r newidiadau posibl yn amlwg yn gysylltiedig â'r ffaith y bydd Wylfa'n cynhyrchu am gyfnod hwy ac felly bydd oedi o ran y gwaith cludo tanwydd o'r safle, ond byddwn yn glynu at yr un dyddiad gorffen comisiynu yn 2025. Felly bydd y cynlluniau a'r rhaglenni'n cael eu cywasgu. Datblygiadau eraill posibl a nodwyd oedd:

- a) Wylfa B
- b) Centrica – fferm wynt 4.2 GW

- c) Sea Gen Wales – offer cynhyrchu trydan drwy gyfrwng y llanw
- d) Cynlluniau seilwaith y Grid Cenedlaethol
- e) Defnydd tir yn Alwminiwm Môn

Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd drwy ymestyn y cyfnod cynhyrchu.

iv. Cyflwynir y ddogfen i ONR erbyn 25 Mawrth 2013 gyda chyfnod ymgynghori o 90 diwrnod. Bydd yr adroddiad drafft yn llawer byrrach na'r datganiad gwreiddiol felly anogwyd yr aelodau i gymryd y cyfle i gyflwyno sylwadau.

v. Mynegodd Ieuan Wyn Jones ei bryder ynghylch y broses datgomisiynu a'r oedi o ran adeiladu Wylfa B. Yn benodol, yr oedd yn pryderu ynghylch y bwch posibl rhwng diwedd un a chychwyn y llall. Mewn ymateb, crybwyllwyd Proses Datgomisiynu Eithaf Magnox a'r fantais o drosglwyddo'r arbenigedd a'r ymroddiad technolegol o'r broses hon i'r adeilad newydd. Pe byddai'r gwaith cynhyrchu'n dod i ben yn 2014, byddai'r gwaith o wagio'r tanwydd yn cymryd tair blynedd. Pwysleisiwyd bod y dyddiad ar gyfer y cyfnod Gofal a Chynnal a Chadw'n aros yn ddigifnewid, a bydd y broses yn arwain at y cyfnod hwnnw'n cael ei chywasgu. Rhagwelir y bydd gorgyffwrdd rhwng datgomisiynu a'r adeilad newydd – ond bydd y mater hwn o barhad yn derbyn sylw. Gall Llywodraeth Cymru hefyd ddarparu cynlluniau hyfforddi i gynorthwyo'r trosglwyddiad hwn.

vi. Gofynnodd Tom Conway pam nad oedd yr adolygiad yn mynd dim pellach na Gofal a Chynnal a Chadw. Mewn ymateb, eglurwyd iddo ei fod yn ymdrin â'r cyfnod cyfan hyd glirio'r safle'n derfynol yn 2085 / 2090 ond yn naturiol bod mwy o fanylion ynghylch y camau cyntaf. Mae hefyd yn anodd rhagweld sut y bydd technoleg yn datblygu dros gyfnod mor hir o amser. Aeth Tom Conway ymlaen i holi ynghylch oedi o ran ailbrosesu yn Sellafield ac a fyddai hynny'n golygu bod yn rhaid ail-ddefnyddio Celloedd Storfa Sych 4 a 5 fel storfeydd tanwydd. Mewn ymateb, cyfeiriodd Gordon Malcolm at yr achos diogelwch dros Gell Storfa Sych 5 fel rhan o'r gweithgareddau gwagio tanwydd. Mae'r orsaf yn ymgymryd ag Adolygiad Diogelwch Cyfnodol sy'n cynnwys yr holl gyfleusterau ar y safle a phob gweithgarwch am y deng mlynedd nesaf, a chadarnhaodd y bydd yn cynnwys cynhyrchu hyd ddiwedd 2015 gan y dylai hyn fod yn hwy nag y bydd y stoc tanwydd presennol yn ei ganiatáu. Mae gwefan yr NDA yn disgrifio trosglwyddo tanwydd i Sellafield a'r gwahanol senarios yn y Rhaglen Weithredu (MOP). Mae'n disgrifio'r senario a'r amserlen os bydd 600 tunnelli y flwyddyn yn cael ei drosglwyddo i Sellafield ond hefyd yn darparu model ar gyfer 450 tunnelli y flwyddyn. Mae'r rhaglen hon yn caniatáu ar gyfer oedi ac yn fodd o sefydlu cynlluniau wrth gefn ar gyfer cynhyrchu am gyfnod hwy os bydd oedi gyda'r amserlen gwagio tanwydd o Wylfa. Ychwanegodd y Cadeirydd bod y Rhaglen Weithredu yn mynd rhagddi yn unol â'r amserlen ar hyn o bryd. Ni all unrhyw danwydd newydd gyrraedd y safle ac felly mae cyfanswm y tanwydd yn Wylfa yn aros yn un peth - nid oes angen defnyddio Celloedd Storfa Sych fel storfa. Yr oedd bwriad i ail-ddefnyddio Cell Storfa Sych 5 i gyflymu gwagio'r tanwydd terfynol yn unig. Cynigiwyd y gallai'r mater hwn gael ei drafod ar sail un i un y tu allan i'r cyfarfod a gofynnodd y cynrychiolydd ONR a fyddai modd iddo ef wrando ar y drafodaeth hefyd.

## 12. Cwestiwn ac Ateb ac Unrhyw Fusnes Arall

i. Ategwyd gwerth hyfforddiant yn y cyfarfod. Dywedwyd bod gweithlu rhagorol yn Wylfa a bod adeiladu o'r newydd ar y gorwel ("Horizon") ond bod angen i bob sefydliad (Cyngor Sir Ynys Môn, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain) gadw mewn cof y bwch posibl o ran trosglwyddo.

ii. Crybwyllodd Tom Conway bod arogl olew tanwydd tyrbîn cryf yng Nghemaes dydd Llun diwethaf, a gofynnodd beth oedd y broblem. Dywedwyd bod y staff wedi cerdded o gwmpas y safle mewn ymateb i ymholiadau gan y cyhoedd ac y cadarnhawyd nad oedd unrhyw fygdarth yn deillio o'r safle.

iii. Cyfeiriodd y Cadeirydd at ohebiaeth a dderbyniwyd gan Richard Foxhall yn datgan bod Hitachi wedi cwblhau pryniant Horizon a diolchodd i bawb a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad cyhoeddi.

iv. Dyddiadau arfaethedig ar gyfer Cyfarfodydd y GRhS yn 2013 –

14 Mawrth, 6 Mehefin, 5 Medi, 12 Rhagfyr.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.